

Cyfeirio Rhwng Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) a'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (FfCE)

Crynodeb Gweithredol

Hydref 2019



Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

Rhagair

Mae ColegauCymru'n falch o gyhoeddi'r adroddiad hwn sy'n trafod y broses o gyfeirio rhwng



Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) a'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (FfCE).

Mae ColegauCymru'n cynrychioli Llywodraeth Cymru fel y Pwynt Cyswllt/Cyfeirio Cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (FfCE), y System Credydau Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (ECVET) a'r Dull

Ewropeaidd o Sicrhau Ansawdd Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (ECAVET).

Fframwaith cyfeirio cyffredin yw'r FfCE a'i ddiben yw sicrhau bod modd deall cymwysterau'n well mewn gwahanol wledydd a systemau, a hynny o fewn Ewrop a'r tu hwnt. Ystyr ymarferol yr adroddiad hwn yw y bydd yn helpu i gydnabod cymwysterau Cymru dramor, a bydd yn hwyluso symudedd dysgwyr, myfyrwyr a gweithwyr o Gymru sydd am hyfforddi, astudio a gweithio mewn nifer o wledydd gwahanol.

Yn y cyfnod ansicr hwn, mae'n bwysig bod Cymru'n parhau'n gystadleuol yn fyd-eang. Drwy gomisiynu'r adroddiad hwn, mae ColegauCymru'n dangos pwysigrwydd sicrhau bod cymwysterau Cymru'n cyd-fynd â'r FfCE. Mae hynny'n rhoi sicrwydd i gwmnïau sy'n awyddus i ddatblygu buddsoddi uniongyrchol o dramor bod modd cymharu safonau proffesiynol yng Nghymru â safonau eraill o amgylch y byd.

Mae ColegauCymru yn ddiolchgar am y cyllid grant a gafodd gan yr Undeb Ewropeaidd drwy Rwydwaith Polisi EMPL i gomisiynu'r adroddiad hwn. Rhaid diolch hefyd i Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), arbenigwyr yn y Deyrnas Unedig, arbenigwyr rhyngwladol, a phawb a neilltuodd eu hamser a'u harbenigedd i gyfrannu at yr adroddiad hwn.



Cadeirydd Bwrdd ColegauCymru

Hydref 2019

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gwaith a gwblhawyd yn 2018-19 yng Nghymru i gyfeirio rhwng Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) a'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (FfCE). Mae'r adroddiad yn rhoi tystiolaeth ar gyfer pob un o'r 10 maen prawf ar gyfer cyfeirio a bennwyd gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd, a'i gasgliad yw bod modd cyfeirio rhwng FfCChC a'r FfCE a bod y 10 maen prawf wedi'u cyflawni.

Comisiynwyd yr adroddiad gan bartneriaeth weithredu strategol FfCChC. Sefydlwyd Grŵp Llywio i oruchwylio'r gwaith, a hwnnw'n cynnwys y cyrff sy'n gyfrifol am Golofnau FfCChC (Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru) – ynghyd â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, rhanddeiliaid eraill o'r sector addysg yng Nghymru, ac arbenigwyr rhyngwladol.

Gwnaed y gwaith cyfeirio, a gwaith drafftio'r adroddiad, gan Cymwysterau Cymru ar ran Pwynt Cydlynu Cenedlaethol Cymru. Roedd ein dull o gyfeirio rhwng FfCChC a'r FfCE yn golygu defnyddio nifer o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys adolygu disgrifyddion lefelau, adolygu deilliannau dysgu mewn manylebau cymwysterau, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru

Fframwaith cenedlaethol yw FfCChC sydd â'r nod o wella mynediad, hyblygrwydd a dilyniant mewn dysgu, asesu ac ardystio. Mae'r fframwaith yn cynnwys cymwysterau a chyfleoedd dysgu sydd wedi'u seilio ar gredydau. Mae'n cynnwys ystod eang o gymwysterau, gan gynnwys cymwysterau ffurfiol sy'n asesu dysgwyr ar ddiwedd cyfnodau safonedig o ddysgu, ynghyd â chyfleoedd dysgu heb fod yn ffurfiol.

Mae'r ystod eang hwn o gymwysterau wedi'u trefnu o dan dair Colofn:

- Addysg Uwch;
- Cymwysterau Rheoleiddiedig; a
- Dysgu Gydol Oes.

Meta-fframwaith yw FfCChC, ac mae hynny'n golygu ei fod yn sicrhau bod modd cymharu'r dysgu ym mhob Colofn â'r dysgu ym mhob Colofn arall, o ran lefel yr hyn a ofynnir gan ddysgwyr ym mhob un.

Mae gan FfCChC dair Lefel Mynediad ac wyth lefel arall. Nod y lefelau hyn yw cwmpasu holl ystod y cyfleoedd dysgu yng Nghymru, o wybodaeth sylfaenol i feistrolaeth.

Cyd-destun FfCChC

Mae'r Llywodraeth, rheoleiddwyr, arolygwyr, cyrff dyfarnu, darparwyr a dysgwyr i gyd yn rhan o'r system addysg a chymwysterau yng Nghymru. Mae gan y cyrff hyn swyddogaethau penodol yn y system, fel a ganlyn:

- Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r blaenoriaethau cenedlaethol, sy'n creu polisi ar gyfer y cwricwlwm, ac sy'n rhoi cyllid. Bydd Llywodraeth leol yn dosrannu'r cyllid i ysgolion ac yn eu rheoli.

- Rheoleiddwyr ac arolygwyr sy'n rheoleiddio ac yn sicrhau ansawdd cyrff sy'n gallu dyfarnu cymwysterau o dan FfCChC, a hwy sy'n monitro ansawdd y ddarpariaeth. Ceir gwahanol rheoleiddwyr ar gyfer gwahanol Golofnau FfCChC.
- Cyrff dyfarnu sy'n datblygu cymwysterau ac unedau, yn cynnal asesiadau ac yn dyfarnu cymwysterau.
- Darparwyr dysgu sy'n dylunio rhaglenni astudio, yn darparu cyfleoedd addysgu a dysgu, ac yn paratoi dysgwyr at gael eu hasesu.

Diweddariadau ers Y Gwaith Cyfeirio Diwethaf Yn 2010

Gwnaed gwaith yn 2010 i gyfeirio rhwng gwahanol fframweithiau cymwysterau'r DU â'r FfCE (Qualifications Frameworks in the UK, 2010).

Ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, mae'r system addysg a chymwysterau yng Nghymru wedi esblygu rhagor, gan gynnwys sefydlu Cymwysterau Cymru, sy'n rheoleiddio'r holl gymwysterau rheoleiddiedig ac eithrio graddau.

Mae'r disgrifyddion lefelau a ddefnyddir yn y Golofn Cymwysterau Rheoleiddiedig hefyd wedi'u diwygio ers 2010. Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ddisgrifyddion lefelau newydd yn 2015, fel y gwnaeth Ofqual yn Lloegr a CCEA Regulation yng Ngogledd Iwerddon.

Ers yr adroddiad cyfeirio diwethaf, mae Cyngor Ewrop wedi diweddarau ei feini prawf ar gyfer cyfeirio, a hynny er mwyn gwella ansawdd a chysondeb y gwaith cyfeirio. Mae hyn yn sicrhau bod gwaith cyfeirio'n cael ei wneud mewn ffordd gyson ar lefel y system a lefel y cymwysterau, gan gydnabod yn glir y meini prawf ar gyfer cyfeirio.

Ac ystyried y newidiadau i fframwaith cymwysterau Cymru a'r tirlun addysg yn ehangach, ynghyd â'r newidiadau i'r meini prawf ar gyfer cyfeirio, penderfynwyd y byddai 2018-19 yn adeg addas i wneud gwaith cyfeirio newydd.

Mae'r adroddiad hefyd yn casglu y bu newid yn y modd y defnyddir FfCChC yn system addysg a sgiliau Cymru. Yn hytrach na chael dylanwad pellgyrhaeddol ar y broses o ddatblygu cymwysterau, mae iddo rôl gyfathrebu wrth ddisgrifio'r system i randdeiliaid.

Y Dystiolaeth o Dan Y Meini Prawf ar Gyfer Cyfeirio

Mae'r adroddiad yn nodi'r 10 maen prawf yn eu tro, gan roi tystiolaeth o dan bob un. Casgliad yr adroddiad yw bod pob un o'r meini prawf wedi'u cyflawni. Mae'r adran nesaf yn rhoi crynodeb bras o'r prif ganfyddiadau.

Maen Prawf 1 – Mae cyfrifoldebau ac/neu gymhwysedd cyfreithiol pob corff cenedlaethol perthnasol sy'n rhan o'r broses gyfeirio, gan gynnwys y Pwynt Cydlynu Cenedlaethol, wedi'u pennu'n glir ac wedi'u cyhoeddi gan yr awdurdodau cyhoeddus cymwys.

Mae'r maen prawf hwn wedi'i gyflawni. Mae gan bob un o'r cyrff sy'n rhan o'r broses gyfeirio, a phob corff sydd â chyfrifoldebau sy'n ymwneud â FfCChC, gyfrifoldebau a chymhwysedd cyfreithiol sydd wedi'u diffinio'n glir.

Mae Prawf 2 – Ceir cysylltiad clir ac amlwg rhwng lefelau'r cymwysterau yn y fframwaith neu'r system cymwysterau cenedlaethol a'r disgrifyddion lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd.

Mae'r maen prawf hwn wedi'i gyflawni. Mae gan FfCChC a'r FfCE ddisgrifyddion lefelau sydd wedi'u diffinio'n glir, a'r rheini'n gwahaniaethu rhwng gwahanol nodweddion y dysgu, gan gynnwys gwybodaeth a sgiliau. Mae gan FfCChC a'r FfCE ddisgrifyddion lefelau yn y fframwaith sy'n golygu bod lefel yr hyn sy'n ofynnol gan ddysgwyr yn cynyddu wrth iddynt ddringo'r fframwaith. Mae hyn yn golygu po uchaf y lefel, y mwyaf fo'r wybodaeth a'r sgiliau cymhleth y mae'n rhaid i ddysgwyr eu harddangos. Yn olaf, mae lefelau FfCChC a lefelau'r FfCE ar y cyfan yn gymaradwy.

Maen Prawf 3 – Mae'r fframwaith neu'r system cymwysterau cenedlaethol a'r cymwysterau eu hunain wedi'u seilio ar yr egwyddor a'r amcan o gyflawni deilliannau dysgu, ac mae cysylltiad rhwng hynny â'r trefniadau ar gyfer dilysu cyfleoedd dysgu heb fod yn ffurfiol a dysgu anffurfiol, ynghyd â systemau credydau pan fydd y rhain yn bodoli.

Mae'r maen prawf hwn wedi'i gyflawni. Mae egwyddor deilliannau dysgu yn un o wyth egwyddor lefel uchel FfCChC a rhaid i bob cyfle dysgu ddangos ei fod yn cyflawni'r egwyddor hon er mwyn iddo gael ei gynnwys yn y fframwaith. Mae deilliannau dysgu i'w gweld ym manylebau'r cymwysterau a gaiff eu creu gan gyrff dyfarnu, ynghyd ag yn yr asesiadau unigol, y meini prawf ar gyfer rheoleiddio a'r safonau cenedlaethol (fel y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol) sy'n sail i gynnwys cymwysterau. Mae hyn wedi bod yn un o nodweddion system gymwysterau Cymru ers sefydlu FfCChC, a hyd yn oed cyn y cyfnod hwnnw.

Caiff dysgu heb fod yn ffurfiol ei ddilysu yn FfCChC mewn tair ffordd:

- Cydnabod Dysgu Blaenorol;
- y Golofn Dysgu Gydol Oes; a
- Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Mae'r adroddiad yn esbonio na chaiff dysgu anffurfiol ei ddilysu fel rhan o FfCChC, ond mae wedi'i ymgorffori'n rhan o asesiadau ffurfiol gan ddefnyddio methodolegau amrywiol. Dywedodd yr adolygiad o FfCChC yn 2014 y byddai cyrff dyfarnu'n aml yn gofyn am dystiolaeth sylweddol gan ddarparwyr dysgu er mwyn bod yn sicr o gyflawniadau dysgwyr. Daeth rhanddeiliaid amrywiol felly i'r casgliad bod y broses o ddilysu dysgu anffurfiol i bob diben wedi'i 'ffurfioli', gan roi baich gormodol ar ddarparwyr dysgu a'r dysgwyr eu hunain, a thanseilio manteision gwreiddiol hyn.

Penderfynwyd gan hynny i gael gwared ar ddilysu dysgu anffurfiol o'r FfCChC er mwyn cadw dilysrwydd y profiad dysgu i'r dysgwr, a chadw ar yr un pryd y trylwyredd a'r hygrededd sy'n gysylltiedig â phrosesau sicrhau ansawdd FfCChC. Mae'r newid hwn yn FfCChC hefyd yn adlewyrchu'r dull o asesu yn system gymwysterau Cymru. Mae hyn yn golygu bod cyrff dyfarnu a rheoleiddwyr yn sicrhau bod asesiadau'n deg, yn ddilys ac yn ddibynadwy wrth ganfod lefelau gwybodaeth a sgiliau dysgwyr, a hynny wedi'i seilio ar y dystiolaeth y bydd dysgwyr yn ei chreu o dan amodau pendant.

Mae FfCChC yn cydnabod cwblhau cymwysterau'n llawn ac yn rhannol drwy system gredydau. Mae hyn yn golygu bod modd i ddysgwyr drosglwyddo'u gwybodaeth a'u sgiliau rhwng llwybrau, darparwyr a gwledydd mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd ag egwyddor 1 yn Atodiad V i Argymhelliad y Cyngor ynghylch y FfCE yn 2017: sef y dylai systemau credydau gefnogi llwybrau dysgu hyblyg, er budd dysgwyr unigol.

Maen Prawf 4 – Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cynnwys cymwysterau yn y fframwaith cymwysterau cenedlaethol neu ar gyfer disgrifio'r berthynas rhwng cymwysterau a'r system gymwysterau genedlaethol yn dryloyw.

Mae'r maen prawf hwn wedi'i gyflawni. Mae'r cymwysterau a'r cyfleoedd dysgu achrededig a geir yn FfCChC yn cael eu datblygu gan gyrff dyfarnu a chyrff cymwys cydnabyddedig, gan gynnwys prifysgolion, colegau, cyflogwyr a'r sector gwirfoddol. Er mwyn i'r gyrff dyfarnu hyn ddisgrifio lefel ar FfCChC ar gyfer y cymwysterau neu'r cyfleoedd dysgu hyn, ac er mwyn eu cynnwys yn FfCChC, rhaid iddynt fodloni cyfres o ofynion. Y tri chorff rheoleiddio sy'n goruchwylio tair Colofn FfCChC sy'n pennu'r gofynion hyn – sef Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CCAUC.

Maen Prawf 5 – Mae'r system(au) sicrhau ansawdd cenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cyfeirio at y fframweithiau neu'r systemau cymwysterau cenedlaethol ac maent yn gyson â'r egwyddorion sicrhau ansawdd a geir yn Atodiad IV i'r Argymhelliad hwn.

Mae'r maen prawf hwn wedi'i gyflawni. Ceir systemau sicrhau ansawdd ar gyfer pob cymhwyster ym mhob un o Golofnau FfCChC. Mae gofyn i gyrff dyfarnu a darparwyr dysgu gael dulliau o sicrhau ansawdd a rheoleiddwyr i'w monitro.

Maen Prawf 6 – Bydd y broses gyfeirio'n cynnwys cytundeb ar ffurf datganiad gan y cyrff sicrhau ansawdd perthnasol bod yr adroddiad cyfeirio'n gyson â'r trefniadau, y darpariaethau a'r arferion cenedlaethol perthnasol ar gyfer sicrhau ansawdd.

Mae'r maen prawf hwn wedi'i gyflawni. Bu Llywodraeth Cymru a CCAUC yn ymwneud â'r broses drwy Grŵp Cynghori FfCCHC, ac maent ill dau'n aelodau o'r Grŵp hwnnw, er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth a roddwyd o dan Faen Prawf 5 yn gyson â'u trefniadau, eu darpariaethau a'u harferion ar gyfer sicrhau ansawdd. Maent wedi cadarnhau drwy'r Grŵp hwn bod yr Adroddiad yn rhoi darlun cywir o'r sefyllfa.

Maen Prawf 7 – Bydd y broses gyfeirio'n cynnwys arbenigwyr rhyngwladol a bydd yr adroddiadau cyfeirio'n cynnwys datganiad ysgrifenedig gan o leiaf ddau arbenigwr rhyngwladol o ddwy wlad wahanol am y broses gyfeirio.

Mae'r maen prawf hwn wedi'i gyflawni. Bu arbenigwyr rhyngwladol yn bresennol mewn dau o gyfarfodydd a drefnwyd o'r Grŵp Llywio i roi eu barn. Maent hefyd wedi rhoi sylwadau mewn trafodaethau eraill ac yn ysgrifenedig ynghylch drafftiau cynharach o'r adroddiad. Mae eu sylwadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Maen Prawf 8 – Bydd yr awdurdod neu'r awdurdodau cymwys yn ardystio'r gwaith o gyfeirio rhwng y fframweithiau neu'r systemau cymwysterau cenedlaethol a'r FfCE. Bydd yr awdurdodau cymwys, gan gynnwys Pwyntiau Cydlynu Cenedlaethol y FfCE, yn cyhoeddi un adroddiad cynhwysfawr, a hwnnw'n cynnwys manylion y gwaith cyfeirio a'r dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r gwaith, a bydd yn rhoi sylw'n unigol i bob un o'r meini prawf.

Mae'r maen prawf hwn wedi'i gyflawni. Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru a CCAUC yw'r cyrff cymwys o ran bod yn berchen ar FfCChC. Mae'r cyrff hyn i gyd wedi'u cynnwys ar y Grŵp Llywio ar gyfer gwneud y gwaith cyfeirio rhwng FfCChC a'r FfCE. Bu'r cyrff hyn i gyd yn rhan o'r broses o ddatblygu'r adroddiad drwy'r fforwm hwn, a bu i bob un hefyd ddarparu datganiad ysgrifenedig ar wahân, yn ardystio'r gwaith cyfeirio, i'w gynnwys yn yr adroddiad terfynol.

Maen Prawf 9 – O fewn 6 mis i gwblhau'r gwaith cyfeirio neu ddiweddarau'r adroddiad cyfeirio, bydd Aelod-wladwriaethau a gwledydd eraill sy'n cyfranogi yn cyhoeddi'r adroddiad cyfeirio ac yn rhoi gwybodaeth berthnasol at ddibenion cymharu ar y porth Ewropeaidd perthnasol

Mae'r maen prawf hwn wedi'i gyflawni. Mae'r cyrff perthnasol i gyd wedi cytuno y caiff y wybodaeth a geir yn yr adroddiad hwn ei ychwanegu at blatfform a phorth y FfCE ar yr adeg briodol er mwyn i bobl allu'i weld yn eang yn unol â'r hyn a gytunwyd. Bydd yr adroddiad cyfeirio ar gael ar wefan ColegauCymru a bydd Cymwysterau Cymru, CCAUC a Llywodraeth Cymru'n rhoi cyhoeddusrwydd iddo.

Maen Prawf 10 – Yn dilyn y broses gyfeirio, dylai pob dogfen newydd sy'n ymwneud â chymwysterau sy'n rhan o fframweithiau neu systemau cymwysterau cenedlaethol (e.e. tystysgrifau, diplomâu, atodiadau i dystysgrifau, atodiadau i ddiplomâu) ac/neu gofrestri cymwysterau a gyhoeddir gan yr awdurdodau cymwys gynnwys cyfeiriad clir, drwy'r fframweithiau neu'r systemau cymwysterau cenedlaethol, at y lefel berthnasol o dan y FfCE.

Mae'r maen prawf hwn wedi'i gyflawni'n rhannol. Mae'n rhaid i bob tystysgrif, manyleb a deunydd marchnata a gyhoeddir mewn perthynas â chymwysterau yn y Golofn Cymwysterau Rheoleiddiedig gynnwys cyfeiriad at lefel ar FfCChC, fel rhan o ofynion rheoleiddio Cymwysterau Cymru.

Y Camau Nesaf

I grynhoi, mae'r adroddiad cyfeirio yn rhoi'r dystiolaeth bod FfCChC yn mapio â'r FfCE a bod y 10 maen prawf wedi'u cyflawni.

Mae atodiadau i'r adroddiad yn rhoi dadansoddiadau manwl ynghyd â datganiadau cadarnhau a gwybodaeth ategol gan yr arbenigwyr rhyngwladol.

O ran y camau nesaf, mae aelodau o Grŵp Cyngori FfCChC wedi cael cyflwyniad am brif ganfyddiadau'r adroddiad hwn, ac maent wedi ymrwmo o hyd i barhau i hyrwyddo a gwreiddio'r fframwaith yn eang ymhlith dysgwyr, sefydliadau addysg bellach, sefydliadau addysg uwch, ysgolion a chyflogwyr. Bydd y diagram, y llyfryn a'r gwaith animeiddio ar y we yn dal i gael eu dosbarthu'n strategol drwy ein system er mwyn sôn am nodweddion FfCChC a sicrhau rhagor o ddealltwriaeth o'r lefelau a'r Colofnau.

Mae'r sector yn paratoi at ragor o ddiwygiadau i Gymwysterau Rheoleiddiedig. Dros y blynyddoedd nesaf, bydd Cymwysterau Cymru yn parhau â rhaglen o adolygiadau o gymwysterau galwedigaethol ac anghenion sgiliau mewn sectorau penodol, ac mae'n bosibl y bydd yr adolygiadau hyn yn arwain at ddatblygu cymwysterau newydd i Gymru'n unig yn y sectorau hyn. Bydd FfCChC yn ddylanwad o bwys ar y cymwysterau hyn.

Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn, mae amryw o randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru, arbenigwyr pwnc a chynrychiolwyr y proffesiwn addysgu yn gweithio ar ddatblygu Cwricwlwm Newydd i ddysgwyr rhwng 4 ac 16 oed.

Mewn marchnad lafur gynyddol fyd-eang, mae dysgwyr yn teithio'n rhyngwladol i gael gwaith ac i barhau ag astudiaethau pellach. O ganlyniad i'n gwaith i gyfeirio rhwng y ddau fframwaith, gall dysgwyr yng Nghymru fod yn sicr bod eu cymwysterau'n gludadwy a'u bod yn berthnasol drwy'r Undeb Ewropeaidd i gyd ac y tu hwnt iddo.